# DEDDF CYNLLUNIO (CYMRU) 2015

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 5 Ceisiadau i Weinidogion Cymru

#### *Adran 19 - Datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol: ceisiadau am ganiatâd cynllunio*

76. Mae'r adran hon yn mewnosod adrannau 62D a 62E i DCGTh 1990.

77. Mae adran 62D yn ei gwneud yn ofynnol bod ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol ("DAC") yn cael eu gwneud i Weinidogion Cymru. Mae cais DAC yn gais am ganiatâd cynllunio (ac eithrio caniatâd cynllunio amlinellol) ar gyfer datblygu tir yng Nghymru, lle mae'r datblygiad arfaethedig o arwyddocâd cenedlaethol. (Caniatâd a roddir yn ddarostyngedig i gadw materion manwl yn ôl i'w cymeradwyo yn nes ymlaen yw caniatâd cynllunio amlinellol.)

78. Caiff Gweinidogion Cymru roi "arwyddocâd cenedlaethol" i ddatblygiad mewn dwy ffordd.

79. Yn gyntaf, caiff Gweinidogion Cymru nodi meini prawf ar gyfer DAC mewn rheoliadau. Bydd datblygiad yng Nghymru o arwyddocâd cenedlaethol os yw'n bodloni'r meini prawf hynny. Er enghraifft, gallai rheoliadau roi arwyddocâd cenedlaethol i orsafoedd ar y tir sy'n cynhyrchu swm penodol o ynni, neu ddatblygiad ar raddfa benodol sy'n gysylltiedig â maes awyr a rheilffordd.

80. Yn ail, bydd datblygiad yng Nghymru o arwyddocâd cenedlaethol os yw'n cael ei ddisgrifio felly yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

81. Nid yw cais am ganiatâd cynllunio i amrywio'r amodau sy'n atodedig i ganiatâd cynllunio blaenorol (boed ar gyfer DAC neu ddatblygiad arall) i gael ei drin fel cais DAC oni bai ei fod o ddisgrifiad a ragnodir mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru.

82. Rhaid i berson sy'n bwriadu gwneud cais DAC hysbysu Gweinidogion Cymru a'r awdurdod cynllunio lleol y byddai'r cais wedi'i gyflwyno iddo fel arall. Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth, mewn gorchymyn datblygu, o ran ffurf a chynnwys hysbysiad, yr wybodaeth sydd i fynd gyda'r hysbysiad, a'r ffordd y mae'n rhaid rhoi'r hysbysiad a'r cyfnod ar gyfer gwneud hynny.

83. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r person sy'n gwneud y cais bod yr hysbysiad wedi dod i law. Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn rheoliadau ynghylch rhoi hysbysiad o'r fath. Gall hyn gynnwys darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys yr hysbysiad, y ffordd y caiff ei roi, ac o fewn pa gyfnod y caiff ei roi. Nid yw unrhyw gam a gymerir mewn cysylltiad â chais cyn i hysbysiad o'r fath gael ei roi yn cyfrif fel ymgynghoriad ynghylch y cais, sy'n golygu bod rhaid hysbysu Gweinidogion Cymru am geisiadau arfaethedig cyn cynnal ymgynghoriad. Gallai gofyniad i ymgynghori godi pan fo ceisiadau DAC wedi eu rhagnodi mewn gorchymyn datblygu at ddibenion adran 61Z (a fewnosodwyd gan adran 17).